ADRODDIAD

PWYLLGOR PENODI YMGYNGHOROL Y COMISIYNYDD PLANT

RHAGAIR

gan Jane Hutt AC, *y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor*

Yng nghynllun strategol y Cynulliad, GwellCymru.com., roedd ymrwymiad clir i benodi Comisiynydd Plant i Gymru i hybu hawliau plant. Ers dyfodiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae pob un o'r pleidiau wedi mynegi eu cefnogaeth i'r cynnig. Gwnaed cyfraniad allweddol gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Addysg, Ysgolion ac Addysg Gynnar, at drafod y cylch gwaith, rôl a swyddogaethau'r comisiynydd ac wrth lunio argymhellion ar gyfer creu'r swydd. Dyma oedd prif flaenoriaeth y Pwyllgor yn ystod ei flwyddyn gyntaf ac un o'm hamcanion personol i yw penodi'r Comisiynydd cyntaf cyn diwedd y flwyddyn.

Comisiynydd Plant Cymru fydd y cyntaf o'i fath ym Mhrydain, a gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru a phob un sydd wedi bod ynghlwm wrth y broses fod yn falch o'r llwyddiant hwn. Rwy'n credu bod ein dull o benodi, yn enwedig wrth gynnwys plant a phobl ifanc, yn dangos sut y gall y Cynulliad Cenedlaethol fod yn flaengar ac yn agored. Gallwn ni a gweinyddiaethau eraill ddysgu o'n profiad ac rwy'n gobeithio y byddwn yn mabwysiadu dull tebyg wrth wneud penodiadau cyhoeddus pwysig eraill.

Drwy Bwyllgor Penodi Ymgynghorol y Comisiynydd Plant, mae Aelodau'r Cynulliad wedi gallu chwarae mwy o ran nag arfer yn y broses ddethol. Yn ogystal â bod yn aelodau o'r panel dethol terfynol, maent wedi cynghori ar fformat ymgeisio ac ar ffordd effeithiol o gynnwys plant a phobl ifanc. Ni ofynnwyd i ymgeiswyr am *curriculum vitae* - y cyfan yr oedd gofyn iddynt ei wneud oedd dangos eu bod yn meddu ar y rhinweddau personol a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd. Gofynnwyd i'r rheini a gafodd wahoddiad i gymryd rhan yn y cam dethol olaf i gyfarfod â phanel arbennig o blant a phobl ifanc. Wrth ddewis yn derfynol, rhoddwyd ystyriaeth i'w barn hwy am briodoldeb yr ymgeiswyr.

Rwy'n arbennig o ddiolchgar i'r mudiadau gwirfoddol, yr asiantaethau statudol a'r unigolion sydd wedi cydweithio â ni, ond rhaid diolch yn arbennig i'r holl blant a phobl ifanc sydd wedi ein helpu i ddewis eu Comisiynydd.

1 Cyflwyniad

1.1 Sefydlwyd Pwyllgor Penodi Ymgynghorol y Comisiynydd Plant gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan

RhS 8.1 ar 12 Medi 2000. Penderfynodd y Cynulliad y dylai'r Pwyllgor gael ei ddiddymu ar 31 Ionawr 2001.

1.2 Dyma aelodau'r Pwyllgor:

Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cadeirydd (Bro Morgannwg);
Lorraine Barrett AC (De Caerdydd a Phenarth);
Helen Mary Jones AC (Llanelli);
David Melding AC (Canol De Cymru);
Kirsty Williams AC (Brycheinig a Maesyfed)

2 Cefndir

2.1 Cymeradwywyd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gynigion ar gyfer Comisiynydd Plant annibynnol i Gymru gan y Cynulliad ar 7 Mehefin 2000. Un o argymhellion yr adroddiad oedd y dylai'r Cynulliad sefydlu pwyllgor *ad hoc* i gynghori ar benodi'r Comisiynydd. Roedd hefyd yn argymell y dylai'r pwyllgor gymryd i ystyriaeth farn plant a phobl ifanc yn ystod y broses benodi.

2.2 Dyma deitl a chylch gwaith Pwyllgor Penodi Ymgynghorol y Comisiynydd Plant, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 12 Medi:

i. pennu:

- manyleb y swydd;
- y meini prawf a ddefnyddir i asesu'r ymgeiswyr;
- telerau'r hysbyseb a phapurau eraill cysylltiedig â'r recriwtio, fel y ffurflen gais;
- ym mha gyfryngau yr hysbysebir y swydd a'r trefniadau hysbysebu;
- sut y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses benodi;

ii. cynghori ar lefel tâl y swydd;

iii. cynghori ar aelodaeth y panel dethol, o fewn canllawiau Cod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Benodiadau Cyhoeddus;

iv. cynghori'r panel dethol ar restr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld; ac

v. adrodd i'r Cynulliad ar yr uchod.

2.3 Cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith, ar 13 Medi a 14 Tachwedd 2000.

3 Canlyniadau ac Argymhellion

3.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau ac argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â'r cylch gwaith.

3.2 Yn ei gyfarfod ar 13 Medi rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bwyntiau (i) i (iii) y cylch gwaith. Roedd papur CCAAC-01-00(p1) yn sail i drafodaeth. Ar y cyfan, roedd aelodau'n bles â'r cynigion, ond gwnaed nifer o sylwadau a cheir manylion y rheini yn y cofnodion. Dyma'r prif bwyntiau:

3.2.1 Manyleb y swydd

- Dylid datgan yn glir bod disgwyl i rôl y Comisiynydd ymestyn y tu hwnt i'r pwerau yn Neddf Safonau Gofal 2000.

3.2.2 Y meini prawf a ddefnyddir i asesu'r ymgeiswyr

- Ni fyddai cymwysterau addysg ffurfiol mor bwysig â'r sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r profiad angenrheidiol a'r gallu i ddangos sensitifrwydd i ddiwylliannau ac ieithoedd Cymru;
- Er y byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol, ni ddylid cyfyngu'r swydd i siaradwyr Cymraeg.

3.2.3 Telerau'r hysbyseb, a phapurau eraill sy'n gysylltiedig â'r recriwtio, fel y ffurflen gais

- Dylid nodi dyddiad arfaethedig y cyfweliadau yn yr hysbyseb;
- Ni ddylid gofyn i ymgeiswyr ddarparu *curriculum vitae,* na'u dyddiad geni;
- Dylai ymgeiswyr gael y cyfle i gyflwyno cymaint o wybodaeth â phosibl am eu sgiliau a'u profiad;
- Dylid gofyn i ymgeiswyr gyflwyno papur ysgrifenedig;

3.2.4 Ym mha gyfryngau yr hysbysebir y swydd a'r trefniadau hysbysebu

- Yn ogystal â'r papurau newydd a'r cyfnodolion a awgrymir ym mharagraff 25 y papur pwyllgor, dylai'r swydd gael ei hysbysebu yng ngwasg grwpiau ethnig a lleiafrifoedd eraill ac yn Rhwydwaith Cymru (sy'n cael ei ddosbarthu i'r sector gwirfoddol);
- Dylid dosbarthu manylion y broses recriwtio i ystod eang o bobl broffesiynol a mudiadau perthnasol eraill a chyhoeddi hysbysiad i'r wasg.

3.2.5 Sut bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses benodi

- Fel cam cyntaf, dylid gofyn i Blant yng Nghymru ddewis panel o blant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddethol.

3.2.6 Ar 11 Tachwedd, mynychodd sawl grp o blant a phobl ifanc ddiwrnod ymgynghori. Nod y diwrnod hwnnw oedd dewis panel a thrafod sail eu hasesiad o ymgeiswyr. Bu aelodau o'r grp "Bite Back" yn hwyluso gweithdai. Gwirfoddolodd 15 o blant a phobl ifanc i'r panel, ac roedd un o'r rheini o leiafrif ethnig. Roedd gan dri brofiad o anabledd.

3.2.7 Pan gyfarfu'r Pwyllgor ar 14 Tachwedd (cofnodion y cyfarfod), cytunodd y dylai'r panel plant a phobl ifanc gyfarfod â'r ymgeiswyr a'u cyfweld ddydd Sul 3 Rhagfyr, sef y diwrnod cyn i'r panel dethol ffurfiol eu cyfweld. Roedd angen canllawiau gofalus a chynhwysfawr ar y panel plant a phobl ifanc ar ei rôl. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant mewn egwyddorion sylfaenol, megis cyfle cyfartal, parchu cyfrinachedd ac asesu'r ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf y cytunwyd arnynt. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylai mudiadau plant megis y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant a Lleisiau mewn Gofal gael eu cynnwys yn y gwaith o baratoi'r plant ifanc y diwrnod cyn iddynt gyfweld yr ymgeiswyr. Byddai Helen Mary Jones yn cyfarfod â'r panel ar eu diwrnod briffio.

3.2.8 Derbyniodd y Pwyllgor yr argymhelliad y dylai barn y plant a'r bobl ifanc gael eu casglu ac y dylai dau aelod o'r panel gael eu dirprwyo i eistedd ar y panel dethol terfynol ar 4 Rhagfyr. Teimlai'r Pwyllgor y dylid gofyn i'r panel nodi pa ymgeiswyr a oedd, yn ei farn ef, yn addas i'w penodi, ond i beidio â'u rhoi mewn unrhyw drefn.

3.2.9 Byddai Mrs Annand Jasani, un o'r aseswyr annibynnol a benodwyd i'r panel dethol (gweler isod), yn eistedd i mewn wrth i'r plant a'r bobl ifanc gyfweld yr ymgeiswyr.

Lefel tâl y swydd

3.2.10 Argymhelliad y Pwyllgor oedd y dylai cyflog y Comisiynydd fod oddeutu £70,000 y flwyddyn, ac y dylai gael ei adolygu'n flynyddol.

Y panel dethol

3.2.11 Ym marn y Pwyllgor, dylai aelodau'r Pwyllgor a dau aseswr annibynnol fod ar y panel dethol. Argymhellodd hefyd y dylai Mrs Annand Jasani, MBE a'r Athro Teresa Rees gael eu gwahodd i fod yn aseswyr. Dylai Ms Helen Thomas, pennaeth Grp Gofal Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol, a dau ddirprwy o'r panel plant a phobl ifanc fod ar y panel, yn ogystal.

Rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld

3.3 Pan gyfarfu'r Pwyllgor ar 14 Tachwedd, cyflwynwyd iddo geisiadau 11 ymgeisydd a oedd wedi'u hargymell ar gyfer y rhestr fer gan banel dethol cychwynnol a oedd yn cynnwys Ms Helen Thomas, Mrs Annand Jasani a Mr Davd Middleton, yr Is-adran Plant a Theuluoedd, y Grp Gofal Cymdeithasol. Yr oedd gan y Pwyllgor wybodaeth hefyd am y 27 ymgeisydd arall a oedd wedi gwneud cais. O'r rhain, gofynnodd y Pwyllgor a allai weld ceisiadau llawn dau ymgeisydd arall. Bu'r Pwyllgor yn ystyried

ceisiadau’r ymgeiswyr ac yn eu cymharu â manyleb y swydd a’r meini prawf y cytunwyd arnynt, ac argymhellodd y dylid gwahodd chwe ymgeisydd i gyfweliad.

Jane Hutt AC
Cadeirydd